

PROSIECT VYRNWY FRANKTON GREEN GEN CYMRU

Cwestiynau Cyffredin

Mae Green GEN Cymru yn cynnig cysylltiad 132 kV newydd i gysylltu parciau ynni yn y Canolbarth â'r rhwydwaith trydan cenedlaethol i helpu i adeiladu rhwydwaith trydan cryfach, mwy gwydn i Gymru sy'n datgloi ynni glân, adnewyddadwy ar gyfer ein busnesau, a'n cymunedau.

Gallai'r cysylltiad newydd hwn hefyd helpu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno systemau gwresogi trydan a cherbydau yn eang, gan helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Rydym wedi ymrwymo i leihau unrhyw effeithiau posibl ar y gymuned leol a'r ardal gyfagos. Isod mae rhai cwestiynau cyffredin ac atebion ar y prosiect i roi rhagor o wybodaeth am ein cynigion.

Gwybodaeth am Green GEN Cymru

C Pwy yw Green GEN Cymru?

A Mae Green Generation Energy Networks Cymru (Green GEN Cymru) yn datblygu rhwydweithiau ynni gwyrdd i ddiwallu anghenion pobl, cymunedau a busnesau'r wlad i'r dyfodol.

Yn 2024, cawsom drwydded Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO) gan Ofgem. Fel IDNO, byddwn ni'n dylunio, yn adeiladu ac yn cynnal rhwydwaith dosbarthu trydan 132kV (132,000- folt) newydd - sydd ei angen i gysylltu prosiectau ynni adnewyddadwy newydd â'r rhwydwaith trawsyrru trydan, gan helpu i sicrhau ynni gwyrdd i gartrefi a busnesau.

Bydd ychwanegu capasiti grid y mae mawr ei angen a galluogi ffynonellau ynni adnewyddadwy newydd yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ledled y wlad. Mae cysylltu systemau cynhyrchu lleol â'r Grid Cenedlaethol yn hanfodol er mwyn ein gwneud yn fwy gwydn ac annibynnol o ran ynni; bydd hyn yn ein gwneud yn llai agored i unrhyw darfu ar gyflenwadau ynni yn y Deyrnas Unedig. Bydd ein rhwydwaith newydd yn creu swyddi ac yn ysgogi twf economaidd, yn lleihau llygredd ac yn gwella iechyd y cyhoedd.

Byddwn ni'n gweithio'n agos gyda chymunedau a rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau, fel bod y bobl leol yn elwa i'r eithaf a bod ein cynlluniau'n effeithio cyn lleied â phosibl arnyn nhw. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Green GEN Cymru www.greengencymru.com.

C Beth yw eich perthynas â Bute Energy?

A Mae Green GEN Cymru, Bute Energy a Haldane Energy yn rhan o Grŵp Windward Energy. Fel busnes rheoledig, mae Green Gen Cymru yn gyfreithiol ar wahân ac yn cael ei reoli a'i weithredu'n annibynnol.

Ym mis Gorffennaf 2024, daeth Green GEN Cymru yn fusnes annibynnol a reoleiddir gan Ofgem ac mae bellach yn gweithredu o dan drwydded Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO). O dan y drwydded hon, rhaid i Green GEN Cymru drin pob cwsmer (boed nhw'n ddefnyddwyr ynni neu'n gynhyrchwyr newydd) yn gyfartal. Mae Bute Energy yn gwsmer i Green GEN Cymru ac mae ganddo gytundebau cysylltu ar waith.




Ynglŷn â'r cynigion

C Pa mor hir fyddai'r llinell uwchben a faint o beilonau fyddech chi'n eu defnyddio?

A Mae'r llwybr arfaethedig presennol ar gyfer y cysylltiad oddeutu 50 km o hyd. Mae'r dyluniad yn cynnwys tua 171 o beilonau, gydag uchder cyfartalog o 28.5 metr.

Dyma'r peilonau delltwaith lleiaf sydd ar gael i ni i drosglwyddo'r cyfanswm pŵer a gaiff ei gynhyrchu. Maent yn fyrrach ac yn llai swmpus na'r cysylltiad blaenorol a gynigiwyd gan National Grid yn 2014.

Mae dyluniad y cysylltiad yn dal i fod yn agored i'w newid yn sgil adborth i'r ymgynghoriad ac asesiadau amgylcheddol sydd ar y gweill felly gallai nifer y peilonau, yr uchder a'r hyd cyfartalog i gyd newid.

**C Beth yw statws y ffermydd gwynt rydych chi'n bwriadu eu cysylltu?**

A Mae gennym gytundebau cysylltu â saith datblygiad ynni. Mae rhagor o fanylion am y rhain yn ein Strategaeth Cysylltu â'r Grid Cam 2 sydd wedi'i diweddarau, ac mae ar gael ar ein gwefan.

Mae'r datblygiadau ynni ar wahanol gamau yn y broses gynllunio a bydd angen y caniatâd angenrheidiol ar bob un i gael eu hadeiladu.

Datblygwyr y datblygiadau ynni sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'u cynlluniau gan gynnwys unrhyw ofynion ymgynghori ac asesu. Rydym wedi ystyried lleoliad arfaethedig datblygiadau ynni yn ein dyluniad ar gyfer y cysylltiad ac yn yr asesiad amgylcheddol rhagarweiniol.

C Pam ydych chi'n datblygu'r cysylltiad cyn i'r ffermydd gwynt gael caniatâd cynllunio?

A Gall y datblygiadau ynni a'r cysylltiadau newydd gymryd sawl blwyddyn i'w cynllunio, i gael caniatâd ac i'w hadeiladu, felly mae'n arferol datblygu cynigion cynhyrchu ynni a chysylltiadau newydd ar yr un pryd.

C Beth yw statws yr is-orsaf National Grid a fyddai'n ofynnol yn agos at Lower Frankton?

A Mae'r National Grid wedi gweithio gyda ni i nodi ardal lle gallent adeiladu is-orsaf 400 kV newydd hynny fydd yn hwyluso ein cysylltiad grid. O fewn yr ardal a nodwyd, rydym yn rhagweld y bydd National Grid yn datblygu cynlluniau ar gyfer yr is-orsaf 400 kV arfaethedig ac ar wahân, byddwn yn datblygu ein harfaeth Gorsaf gyfnewid 132 kV. Am fwy o wybodaeth ar brosiect National Grid: nationalgrid.com/lower-frankton

C Pwy fyddai'n elwa o'r ynni a gynhyrchir?

A Bydd prosiect Vyrnwy Frankton yn cyfrannu at rwydwaith trydan cryfach, yn lleihau'r pwysau ar y grid lleol presennol, yn cefnogi busnesau a gall golygu bod modd cyflwyno gwresogi gwyrd d a cherbydau trydan mewn cymunedau gwledig. Bydd yn mynd â phŵer o'r man lle caiff ei gynhyrchu i'r rhwydwaith trosglwyddo yn Swydd Amwythig lle gellir ei ddsbarthu wedyn drwy'r grid. Mae hyn yn golygu y bydd ynni sy'n cael ei greu gan eneraduron sy'n defnyddio cysylltiad Vyrnwy Frankton yn cyflenwi ynni i gartrefi a busnesau ledled y wlad.

Mae gan Green GEN Cymru drwydded Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO). Mae trwydded IDNO yn ein galluogi i weithredu rhwydweithiau dosbarthu trydan, gan gefnogi'r galw cynyddol am seilwaith ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn golygu y gallwn ymateb i geisiadau cwsmeriaid am gysylltiad o ran defnyddio a chynhyrchu ynni.

Drwy hyn, gallai'r cysylltiad newydd hefyd ddod yn rhan o rwydwaith mwy cydnerth ar gyfer y rhanbarth – gan greu capasiti i gefnogi buddsoddiad lleol a darparu ar gyfer dyfodol lle mae pob un ohonom yn defnyddio mwy o drydan.

Gosod o dan y ddaear

C Pam ydych chi'n defnyddio peilonau ac nid ceblau tanddaearol ar gyfer y rhan fwyaf o'r cysylltiad?

A Fel Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO), mae gennym ddyletswydd o dan y Ddeddf Trydan i fod yn ddarbodus ac yn effeithlon gan fod cost pob cysylltiadiadau yn cael ei throsglwyddo i ddefnyddwyr trydan.

Ers ein hymgyngoriad cyntaf, rydym wedi ailasesu gosod y ceblau o dan y ddaear, gan gynnwys gosod ceblau mewn ffosydd agored ac aredig ceblau. Mae'r naill a'r llall yn ddrutach na datblygu llinellau uwchben ar beilonau. Mae hyn oherwydd cost y ceblau a'r gofynion adeiladu.

Mae angen mwy o dir ar gyfer ceblau dan ddaear fel arfer ac maent yn aflonyddu mwy ar y tir yn ystod y cam adeiladu, a allai greu effeithiau ecolegol ac archeolegol mwy sylweddol, rhywbeth y mae rhaid i ni ei ystyried hefyd.

Gellir datblygu llinellau uwchben yn gyflymach hefyd. Mae hyn yn allweddol os ydym am ddod ag ynni carbon isel i gartrefi a busnesau cyn gynted â phosibl.

Er nad yw'n ymddangos bod cost un cysylltiad newydd yn ychwanegu llawer at filiau trydan, pan ystyrir cynnal a chadw ac adeiladu'r holl gysylltiadau ledled Cymru a Lloegr, byddai'r costau i ddefnyddwyr yn sylweddol pe bai cysylltiadau'n cael eu rhoi o dan y ddaear.


C Pam oedd cynigion National Grid yn 2024 yn cynnwys adran o dan y ddaear yn Nyffryn Efyrrnwy ac nad yw cynnig Green GEN Cymru yn gwneud hynny?

A Roedd cynigion National Grid ar gyfer cysylltiad 400 kV, sydd angen peilonau talach na'r peilonau rydym ni'n eu cynnig. Yn sgil yr asesiad o'r effeithiau gweledol, gwnaeth National Grid gynnig gosod rhan o'r llwybr o dan y ddaear.

Rydym hefyd wedi asesu effeithiau gweledol y peilonau delltwaith rydym yn bwriadu eu defnyddio ar y dirwedd a chymunedau lleol. Ar sail yr asesiadau hyn, rydym wedi dod i'r casgliad bod llinell uwchben yn cyd-fynd â'n dyletswyddau o ran amwynderau a'r amgylchedd, a gofynion y datganiadau polisi cenedlaethol perthnasol sy'n nodi safbwynt y llywodraeth ar rwydweithiau trydan newydd.

Gallwch ddarllen mwy am yr asesiadau rydyn ni wedi'u cwblhau a'r hyn rydyn ni'n ei ystyried yw'r effeithiau presennol yn yr Adroddiad Rhagarweiniol ar yr Effaith Amgylcheddol ar ein gwefan.

Cysylltiad nodweddiadol 132kV ar beilonau dur.



Yr economi leol a manteision lleol

C A fydd y prosiect o fudd i'r economi leol?

A Ynghyd â chysylltu ynni adnewyddadwy yn gyflym ac yn effeithlon â'r grid, bydd ein prosiect hefyd gyfrannu at rwydwaith mwy gwydn a dibynadwy ar gyfer y rhanbarth. Drwy ychwanegu rhagor o gapasiti, gall prosiect Vyrnwy Frankton agor potensial i fuddsoddiadau busnes yn yr ardal, gan gefnogi creu swyddi a sgiliau.

Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi a chefnogi'r economi leol yn ardal ein prosiectau. Rydym yn dal ar gam cynnar yn natblygiad y prosiect, ond byddwn yn darparu cyfleoedd i'r gadwyn gyflenwi leol lle bynnag y bo modd.

C Alla i gysylltu â'ch rhwydwaith?

A Mae ein llinellau dosbarthu arfaethedig yn cynnig capasiti grid y mae mawr ei angen a chadernid i ardaloedd o amgylch ein rhwydwaith. Rydyn ni'n croesawu cynhyrchwyr ynni newydd a defnyddwyr ynni i gysylltu â'n llinellau, gan ddatgloi potensial ynni'r wlad ond hefyd gan roi pŵer yn ôl i mewn i'r rhwydwaith lleol. Gallai defnyddwyr ynni newydd fod yn unrhyw beth o fusnesau newydd sy'n ehangu i gartrefi newydd.

Os hoffech chi gysylltu â'n rhwydwaith, neu os oes gennych chi ddiddordeb mewn trafodaeth ddichonoldeb gychwynnol, ewch i Get Connected - Green GEN Cymru i gofrestru eich diddordeb.
<https://greengencymru.com/get-connected/>

C A oes gan Green GEN Cymru gronfa budd cymunedol?

A Nac oes, ond drwy gysylltu prosiectau ffermydd gwynt Bute Energy, mae'r cymunedau sydd agosaf at ein llinellau grid hefyd yn gymwys i wneud cais i Gronfa Budd Cymunedol Bute Energy.

Yn werth miliynau o bunnoedd y flwyddyn, bydd yr arian hwn ar gael i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer mentrau sy'n gwella ansawdd bywyd aelodau'r gymuned, yn helpu i sicrhau annibyniaeth ynni glân, yn meithrin ymgysylltiad, ac yn mynd i'r afael â phryderon cymdeithasol ac economaidd. Fe'i gweinyddir gan Bute Energy, cysylltwch â'u Tîm Buddsoddi Cymunedol yn uniongyrchol i gael rhagor o wybodaeth. Manylion cyswllt www.bute.energy/community-investment/

Effeithiau ar yr ardal leol

C Pa effeithiau fydd y prosiect yn eu cael ar yr amgylchedd a sut byddwch chi'n eu rheoli?

A Mae newid yn yr hinsawdd yn cael effaith ddramatig ar blanhigion ac anifeiliaid – diogelu bioamrywiaeth yw un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno symud oddi wrth danwydd ffosil. Mae diwallu anghenion byd natur gyda'r seilwaith sydd ei angen arnom i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn gofyn am gydbwysedd gofalus. Bydd datblygu seilwaith mawr bob amser yn golygu effeithiau ar yr amgylchedd, ond gall hefyd fod yn gyfle i fuddsoddi mewn bioamrywiaeth a'i wella.

Rydym wedi ymrwymo i gadw effaith amgylcheddol ein cynigion mor isel ag y gallwn. Rydym wedi ystyried yr effeithiau amgylcheddol yn ofalus gan ein bod wedi datblygu llinell y llwybr gan geisio osgoi ardaloedd penodol neu leihau effeithiau, lle y gallwn. Gallwch ddarllen mwy am linell y llwybr yn ein llyfryn ymgynghori sydd ar gael ar ein gwefan.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi cyhoeddi Adroddiad Cychwynnol ar yr Effaith Amgylcheddol. Mae'r Adroddiad Cychwynnol ar yr Effaith Amgylcheddol yn nodi effeithiau amgylcheddol cychwynnol y cynigion ac ystyriaethau cynnar i reoli neu leihau'r effeithiau hyn, megis drwy leoli seilwaith yn ofalus.

C Ydych chi'n ystyried cynnydd net mewn bioamrywiaeth?

A Mae cynnydd net mewn bioamrywiaeth yn ddull o ddatblygu, a/neu reoli tir, sy'n ceisio gadael yr amgylchedd naturiol mewn cyflwr tipyn gwell nag yr oedd o flaen llaw. Mae'r llywodraeth yn ymgynghori ynghylch sut dylai hyn fod yn berthnasol i Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, fel Prosiect Vyrnwy Frankton, gyda'r nod o'i gyflwyno o fis Tachwedd 2025 ymlaen. Y disgwyliad yw y byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i brosiectau sicrhau o leiaf 10% o gynnydd mewn gwerth bioamrywiaeth o'i gymharu â gwerth bioamrywiaeth y cynefin ar y safle cyn datblygu.

Bydd datblygu seilwaith mawr bob amser yn golygu effeithiau ar yr amgylchedd, ond gall hefyd fod yn gyfle i fuddsoddi mewn bioamrywiaeth a'i wella. Byddwn bob amser yn ceisio cadw unrhyw effeithiau ar fioamrywiaeth mor isel ag y gallwn yn y penderfyniadau a wnawn. Byddwn yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol yng Nghymru a Lloegr ar sicrhau budd net i fioamrywiaeth yn yr ardal. Drwy weithio'n agos gyda'r rhanddeiliaid perthnasol, byddwn yn gweithio i gyflawni budd amgylcheddol sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion hyn.

Effeithiau ar yr ardal leol

C A ydych wedi ystyried perygl llifogydd wrth ddatblygu'r cynigion?

A Yn ystod ein hymgyngoriad cam un, gofynasoch i ni sut y byddem yn rheoli'r potensial ar gyfer llifogydd, o ystyried bod Dyffryn Efyrynwy wedi dioddef llifogydd yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r datganiad polisi cenedlaethol ar ynni, sy'n nodi disgwyliadau'r llywodraeth ynghylch sut y dylid datblygu prosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd, yn mynnu'n benodol ein bod yn ystyried perygl llifogydd wrth i ni ddatblygu ein cynigion.

Dywed "lle mae seilwaith ynni newydd, mewn amgylchiadau eithriadol, yn angenrheidiol mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd (er enghraifft lle nad oes safleoedd sydd ar gael yn rhesymol mewn ardaloedd lle mae'r risg yn is), y nod polisi yw ei wneud yn ddiogel am ei oes heb gynyddu'r perygl o lifogydd mewn mannau eraill a, lle bo'n bosibl, drwy leihau'r perygl o lifogydd yn gyffredinol. Dylai hefyd gael ei ddylunio a'i adeiladu i barhau'n weithredol mewn cyfnodau o lifogydd."

Rydym yn dilyn y gofynion hyn ac wedi ystyried y perygl o lifogydd a phatrymau afonydd wrth ddatblygu llinell y llwybr ar gyfer y cysylltiad.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi cyhoeddi Adroddiad Cychwynnol ar yr Effaith Amgylcheddol. Mae'r Adroddiad Cychwynnol ar yr Effaith Amgylcheddol yn nodi effeithiau amgylcheddol cychwynnol y cynigion, yn cynnwys y perygl o lifogydd, ac ystyriaethau cynnar i reoli neu leihau'r effeithiau hyn, megis drwy leoli seilwaith yn ofalus.

Mae peilonau'n bodoli mewn gorlifdiroedd ledled y wlad a byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio dulliau adeiladu priodol yn yr ardaloedd sensitif hyn.

C A fyddwch chi'n plannu coed, gwrychoedd a llystyfiant yn lle unrhyw rai a fydd yn cael eu tynnu yn ystod y gwaith adeiladu?

A Yn unol â'r canllawiau cynllunio sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i brosiectau o arwyddocâd cenedlaethol gyflawni o leiaf 10% o gynnydd mewn gwerth bioamrywiaeth. Byddem yn rhagweld plannu llystyfiant yn lle unrhyw dyfiant a gaiff ei dynnu yn ystod y cam adeiladu a byddem hefyd yn sicrhau mwy o fioamrywiaeth o'i gymharu â'r gwerth bioamrywiaeth cyn datblygu.

C A fyddwch yn cynnal arolygon a pha rai sydd eu hangen?

A Wrth ddatblygu ein cynigion, rydym wedi cynnal amrywiaeth o arolygon dros ardal eang.

Roedd y rhain yn golygu nifer fach o bobl yn mynd i ardaloedd penodol o dir i gynnal amrywiaeth o arolygon archaeolegol, amgylcheddol a pheirianyddol.

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, bydd yr arolygon hyn yn parhau ochr yn ochr ag arolygon ymwthiol mewn lleoliadau a ddewiswyd yn ofalus i sicrhau bod dyluniad y prosiect mor briodol â phosibl. Bydd pob arolwg yn cael ei wneud mewn gohebiaeth â'r perchennog tir.

C A oes gennych ganiatâd i gynnal arolygon?

A Ein prif ddewis yw cytuno ar fynediad i arolygon yn wirfoddol trwy drwydded arolwg. Os na ellir cytuno ar fynediad i arolygon yn wirfoddol, gall Green GEN Cymru ddibynnu ar yr hawliau a roddir i ni o dan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016, sy'n ein hawdurdodi fel awdurdod caffael.

C Trwy ganiatáu mynediad arolwg i fy nhir y byddaf derbyn bod y prosiect yn mynd yn ei flaen?

A Nid yw caniatáu mynediad i Green GEN Cymru i dir ar gyfer arolygon peirianeg, ecolegol ac amgylcheddol yn atal y tirlfeddiannwr rhag gwneud sylwadau am y Prosiect nac yn dileu'r hawl i wneud sylwadau mewn unrhyw ffordd.

C A fyddai'r cynigion ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru Parc Cenedlaethol yn dylanwadu ar y prosiect?

A Rydym yn ymwybodol bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori ar gynigion i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae ardal chwilio wedi'i nodi sy'n ymestyn yn agos at ran o Ddyffryn Efyrynwy. Mae Parciau Cenedlaethol a'u lleoliadau yn ystyriaethau pwysig wrth lwybro llinellau uwchben. Gan fod y cynnig ar gyfer Parc Cenedlaethol Gogledd Ddwyrain Cymru yn dal i fynd rhagddo, mae'n rhy gynnar i wybod a fydd hyn yn dylanwadu ar ein cynigion. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y cynigion.

Effeithiau ar yr ardal leol

C A ydych wedi ystyried twristiaeth wrth ddatblygu'r cynigion?

A Yn ystod ein hymgyngoriad cam un, gofynasoch i ni ystyried safleoedd sy'n bwysig i dwristiaeth gan gynnwys lleoedd sy'n boblogaidd ymysg ymwelwyr a'r parciau gwyliau a charafanau ym Mhowys.

Mae peilonau i'w gweld mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru a Lloegr lle mae tirwedd, amaethyddiaeth a thwristiaeth yn rhannau ffyniannus o'r economi leol – mae seilwaith trydanol a'r gweithgareddau hyn yn cydfodoli mewn llawer o lefydd.

Rydym wedi ystyried lleoliad parciau gwyliau a manau hamdden poblogaidd wrth ddatblygu llinell llwybr y cysylltiad, gan geisio osgoi ardaloedd penodol neu leihau effeithiau, lle y gallwn.

Gallwch ddarllen mwy am linell y llwybr yn ein llyfryn ymgynghori sydd ar gael ar ein gwefan.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi cyhoeddi Adroddiad Cychwynnol ar yr Effaith Amgylcheddol (PIER). Mae'r Adroddiad yn nodi effeithiau amgylcheddol cychwynnol y cynigion, yn cynnwys ar y economi lleol, ac ystyriaethau cynnar i reoli neu leihau'r effeithiau hyn, megis drwy leoli seilwaith yn ofalus.

Fel rhan o'n cais cynllunio, byddwn hefyd yn asesu effaith y prosiect ar fusnes a chyflogaeth. Bydd hyn yn cynnwys asesiad economaidd-gymdeithasol a chymunedol, a fydd yn ystyried sut gallai'r prosiect effeithio ar yr ardaloedd hyn ac a oes angen unrhyw fesurau lliniaru a sut bydd y rhain yn cael eu cyflawni.

Adeiladu a gweithredu'r cysylltiad

C Sut ydych chi'n bwriadu rheoli traffig adeiladu ar ffyrdd lleol, a pha lwybrau trafndiaeth ydych chi'n bwriadu eu defnyddio?

A Rydym wedi ymrwymo i achosi'r aflonyddwch lleiaf posibl i'r rheini sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd y mae ein cynigion yn effeithio arnynt. Byddwn yn cael cyngor gan randdeiliaid technegol ac yn asesu'n drylwyr yr effaith a gaiff y prosiect ar ffyrdd lleol fel rhan o asesiad traffig a thrafnidiaeth, sy'n un o ofynion y broses y byddwn yn ei dilyn i gyflwyno cais cynllunio. Bydd hyn yn cynnwys sut rydyn ni'n bwriadu rheoli traffig adeiladu a lleihau unrhyw effeithiau posibl. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal cysylltedd rhwng trefi a phentrefi cyfagos a byddwn yn sicrhau nad yw ein gwaith yn ei gwneud yn anodd i'r rheini sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.

C A fydd y llinell uwchben yn gwneud unrhyw sŵn?

A Gall llinellau pŵer uwchben foltedd uchel wneud sŵn weithiau, o dan rai amodau. Sŵn cracio neu hymian yw hyn yn aml, ac mae'n digwydd yn bennaf yn ystod tywydd gwlyb. Gall sŵn ddigwydd hefyd o ganlyniad i'r gwynt yn chwythu hebio'r llinell neu'r peilonau. Bydd unrhyw effeithiau sŵn posibl yn cael eu hasesu fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, a bydd hyn yn cynnwys cynlluniau lliniaru. Byddwn bob amser yn sicrhau bod dyluniad y llinell uwchben a'r is-orsaf yn ystyried unrhyw effeithiau ar y gymuned leol yn ofalus.

C Beth yw meysydd trydanol a magnetig (EMF) ac a ydyn nhw'n ddiogel?

A Mae Meysydd Trydanol a Magnetig yn cael eu cynhyrchu pan fydd trydan yn cael ei ddefnyddio neu ei drosglwyddo. Mae gwifrau, offer a chyflenwad trydan ein cartrefi i gyd yn ffynonellau. Felly, maen nhw o'n cwmpas drwy'r amser yn y byd modern. Mae llinellau uwchben yn ffynhonnell, ond dim ond un o blith llawer. Y cysylltiad mwyaf posibl ag EMF o dan y llinell uwchben yw 38.9 microtesla, sy'n debyg i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl wrth ddefnyddio sychwr gwallt neu gerdded yn agos at bopty microdon pan fydd yn coginio. Mae terfynau ar waith i'n diogelu ni i gyd rhag dod i gysylltiad ag EMF. Mae'r terfynau hyn wedi'u seilio ar adolygiadau gofalus o'r wyddoniaeth gan arbenigwyr annibynnol, sy'n argymhell lefelau cysylltiad diogel i'r cyhoedd. Y terfyn cysylltiad ar gyfer aelodau'r cyhoedd yw 360 microtesla, felly hyd yn oed os ydych chi'n sefyll yn uniongyrchol o dan y llinell uwchben, dim ond ffracsiwn bach o'r terfyn yw'r lefelau. Ar ôl degawdau lawer o ymchwil, a gwario cannoedd o filiynau o bunnoedd yn ymchwilio i'r mater, nid oes unrhyw effeithiau iechyd wedi'u sefydlu o dan y terfynau cysylltiad. Gallwch ddarllen mwy am EMFs yn ein taflen ffeithiau EMF sydd ar gael ar ein gwefan.

Effeithiau ar eiddo

C A fydd y prosiect yn effeithio ar werth eiddo?

A Rydym wedi ystyried lleoliad cymunedau ac eiddo unigol wrth ddatblygu llwybr, gan geisio osgoi ardaloedd penodol neu leihau effeithiau, lle y gallwn. Gallwch ddarllen mwy am linell y llwybr yn ein llyfryn ymgynghori sydd ar gael ar ein gwefan.

Mae llinell y llwybr yn dal i fod yn agored i'w newid drwy adborth ac asesiadau sy'n parhau, felly mae'n rhy gynnar i wybod yn union sut bydd hyn yn effeithio ar eiddo unigol.

Roedd astudiaeth a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024 ar gyfer Scottish Renewables gan BiGGAR Economics wedi asesu effeithiau posibl llinellau pŵer ar duediadau ym mhrisiau tai, gan edrych ar linell Beaully Denny, llinell foltedd uchel drwy ardaloedd gwledig yr Alban, a gwblhawyd yn 2015.

Cynhaliodd BiGGAR Economics arolwg o werthwyr tai o ardaloedd o amgylch llinell Beaully Denny. Canfu'r astudiaeth fod y cyfnod ansicr yn ystod y broses gynllunio wedi cael rhywfaint o effaith ar y farchnad dai, ond ers adeiladu'r llinell roedd tueddiadau'r farchnad dai ar hyd y llinell bŵer yr un fath â'r tueddiadau mewn awdurdodau lleol ehangach. Ffactorau macroeconomaidd fu prif ysgogwyr twf prisiau tai ac nid yw'r llinell bŵer wedi cael unrhyw effaith amlwg ar brisiau tai.

Mae llinell bŵer Beaully-Denny yn ymestyn o Beaully, i'r gogledd o Inverness i Denny ger Falkirk. Mae'r prosiect hwn yn 137 milltir o hyd ac mae'r peilonau bron ddwywaith uchder y peilonau a gynigir ar gyfer Vyrnwy Frankton.

Mae'r adroddiad ar gael yma: <https://www.scottishrenewables.com/publications/1714-house-prices-impact-of-beaully-denny-grid-infrastructure>

C Cyhoeddodd y llywodraeth ei bod yn ystyried lleihau biliau ynni i gymunedau sy'n lletya seilwaith – beth yw statws hyn?

A Cwblhaodd y llywodraeth ymgynghoriad ar y rôl a chwaraeir gan gymunedau lleol sy'n lletya seilwaith rhwydweithiau trawsyrru, a chyflwynodd adroddiad arno. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r rhwydwaith trawsyrru foltedd uchel, nid y rhwydwaith dosbarthu, sef yr hyn y byddai prosiect Vyrnwy Frankton yn ei ddarparu.

Mae'r llywodraeth yn bwrw ymlaen â'i chynlluniau yn dilyn yr ymgynghoriad. Rydym yn monitro'r sefyllfa a byddwn yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/consultations/community-benefits-for-electricity-transmission-network-infrastructure>

Tirfeddianwyr

C Sut byddwch chi'n cefnogi'r rheini y mae'r prosiect yn debygol o effeithio arnynt yn uniongyrchol?

A Rydym yn deall yr effaith ar y rheini y mae ein cynigion yn effeithio arnynt, gan gynnwys perchnogion tai, tirfeddianwyr a'r gymuned leol, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw effeithiau'n cael eu lliniaru gymaint â phosibl. Er ein bod yn gwneud pob ymdrech i gadw'r effeithiau ar gymunedau'n isel, mae'r llwybr yn croesi drwy ardaloedd o dir amaethyddol. Mae ein tîm tiroedd penodol yn siarad â thirfeddianwyr ac yn gweithio'n agos gyda'r rheini y mae ein cynigion yn effeithio arnynt fwyaf. Os oes gennych chi fuddiant mewn tir y mae ein cynigion yn effeithio arno ac nad yw ein tîm tiroedd wedi cysylltu â chi eto, cysylltwch â ni.

C Sut byddwch chi'n digolledu tirfeddianwyr sydd ag offer ar eu tir?

A Dyma ein hail rownd o ymgynghori, ac rydym yn dal i ofyn am adborth ar y gwaith rydym wedi'i wneud hyd yma a sut y dylem ddatblygu ein cynigion ymhellach. Mae'n bwysig iawn i ni fod pobl yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac yn dweud wrthym am eu pryderon er mwyn i ni allu gweithio i leihau'r effeithiau ar gymunedau ac ar eiddo unigol. Ar ôl i ni fireinio ein cynigion, byddwn yn gweithio gyda'r tirfeddianwyr yr effeithir arnynt i drafod sut y gallwn eu cefnogi. Byddwn yn gweithio'n galed i leihau'r effeithiau ar eiddo unigol ond, os bydd y dyluniad terfynol yn effeithio ar eich eiddo chi, byddwn yn trafod pa iawndal sydd ar gael i chi yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol.

Ymgynghori ac adborth

C Beth wnaethoch chi gyda'r adborth i'r ymgynghoriad cyntaf?

A Fe wnaethom ddadansoddi'r holl adborth o'n hymgynghoriad cyntaf, ac mae wedi dylanwadu ar linell y llwybr. Rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad ymgynghori cam un. Mae'r adroddiad yn nodi'r adborth a gawsom a'n hymateb i'r sylwadau a ddaeth i law. Rydym hefyd wedi egluro sut mae adborth wedi dylanwadu ar linell y llwybr yn llyfryn ymgynghori cam dau. Mae'r naill ddogfen a'r llall ar ein gwefan.

C Sut bydd fy adborth yn cael ei ystyried a pham mae'n bwysig?

A Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni ystyried yr holl adborth a gawn yn yr ymgynghoriad statudol. Bydd eich adborth yn cael ei asesu gan ein tîm prosiect, a fydd yn ei ystyried fel rhan o adolygiad o'r cynigion. Bydd adborth o'r cymunedau'n cael ei ystyried ochr yn ochr ag adborth gan randdeiliaid arbenigol, asesiadau amgylcheddol, a gofynion peirianneg fel diogelwch ac effeithlonrwydd.

Fel rhan o'r cais am gydsyniad datblygu, byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori yn egluro'r adborth rydym wedi'i gael a sut rydym wedi'i ystyried yn ofalus wrth ddatblygu'r prosiect.

Ymgynghoriad statudol yw ymgynghoriad Gwanwyn 2025 – rydym yn rhagweld mai hwn fydd ein hymgynghoriad llwybr cyfan olaf ar y prosiect. Mae'n bwysig eich bod yn cymryd rhan os oes gwybodaeth yr ydych am i ni ei hystyried.

C Pa adborth ydych chi am ei gael?

A Mae eich gwybodaeth yn werthfawr iawn i ni ac rydym yn croesawu unrhyw adborth sydd gennych chi ar ein cynigion.

Gallwch ddylanwadu ar ein cynigion o hyd, a hoffem gael eich adborth er mwyn i ni allu parhau i edrych ar ffyrdd o gadw'r effeithiau mor isel â phosibl. Dywedwch wrthym a oes unrhyw newidiadau y credwch y gallwn eu gwneud i'w gwella neu i leihau effeithiau ac, yn bwysicaf oll, pam.

Rydym yn gofyn am sylwadau ar ein holl gynigion, gan gynnwys:

- Is-orsaf gasglu 132kV newydd ger Cefn Coch, Powys, o'r enw is-orsaf Grug y Mynydd
- Tua 4.8km o gebl tanddaearol o is-orsaf Grug y Mynydd drwy barc ynni arfaethedig Llyn Lort i gompownd selio pen cebl yng Nghors y Carreg
- Byddai compownd selio pen cebl Cors y Carreg yn galluogi newid rhwng ceblau o dan y ddaear a dargludyddion uwchben
- Tua 45km o linell uwchben newydd sy'n cael ei chynnal ar beilonau delltwaith dur L7(c) (uchder cyfartalog o 28.5m) o gompownd selio pen Cors y Carreg i orsaf gyfnewid newydd
- Gorsaf gyfnewid ger Lower Frankton, Swydd Amwythig sy'n caniatáu i'r pŵer gael ei ynysu oddi wrth is-orsaf posib newydd sy'n cael ei datblygu gan y National Grid i gysylltu â'r system trawsyrru trydan genedlaethol 400 kV bresennol
- Tir fydd ei angen ar gyfer mesurau gwella, digolledu, a lliniaru amgylcheddol

Yn ogystal â'r seilwaith parhaol, byddai angen tir dros dro hefyd ar gyfer gweithgareddau adeiladu, gan gynnwys, er enghraifft, ardaloedd gweithio ar gyfer offer a pheiriannau adeiladu, swyddfeydd safle, llesiant, storio a mynediad adeiladu.

Byddai angen dargyfeirio a/neu addasu cyfleustodau trydydd parti hefyd fel rhan o waith adeiladu'r Prosiect.

Mae rhifau'r peilonau ar ein map rhyngweithiol yma, <https://greengenvyrnwyfrankton.com/en/the-project/our-preferred-route/>

Dim ond adborth am gynigion y gallwn ei ystyried, ac nid themâu ehangach fel cynhyrchu ynni na pholisïau'r llywodraeth.

Rhowch adborth am ein cynigion yn unig. Po fwyaf o fanylion y gallwch eu darparu, y gorau y gallwn ddeall effeithiau posibl ein gwaith.



info@greengen
vyrnwyfrankton.com



0800 915 3590



RHADBOST
Green GEN
Cymru V2F